

Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro



COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
DYDD MAWRTH 21^{ain} Tachwedd 2017 am 10.00am
Canolfan Dysgu Awyr Agored Ystagbwll, Ystâd Ystagbwll

Presennol:

Tegryn Jones	Prif Weithredwr APCAP (Cadeirydd)
Sue Leonard	Prif Swyddog PAVS (Is-gadeirydd)
Ian Westley	Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro
Alec Don	Prif Weithredwr Porthladd Aberdaugleddau (gadawodd 12.15pm)
Natalie Pearson	Pennaeth Ymgysylltu Llywodraeth Cymru
Yr Uwcharolygydd Ian John	Heddlu Dyfed Powys
Jessica Morgan	PLANED
Anna Bird	Pennaeth Datblygu Partneriaeth Strategol BIP Hywel Dda
Dr Steven Jones (SPJ)	Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Sir Penfro
Rowland Rees-Evans	Cadeirydd Awdurdod Tân CAGC
Rob Quin	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub CAGC
Dai Swan	M Gwasanaeth Tân ac Achub CAGC
Ian Scale	Ymgynghorydd mewn lechyd Cyhoeddus, lechyd Cyhoeddus Cymru
Y Cyng. David Simpson	Arweinydd Cyngor Sir Penfro
Debbie Osowicz	Y Gwasanaeth Profiannaeth Cenedlaethol (gadawodd 12.00pm)

Yn mynychu

Claire George	Cydgysylltydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP
Amy Richmond	Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Dr Polly Sills-Jones	Cydgysylltydd Cynllun Ffyniant Rhanbarthol
Sara Morris	Rheolwr Cynlluniau Datblygu a Chadwraeth, CSP (rhan o'r cyfarfod)

Cymorth / Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP
Lynne Richards	Cydgysylltydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP

Ymddiheuriadau

Bernadine Rees	Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Steve Moore	Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Llywodraethu, Cyfathrebu ac Ymgysylltu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ros Jervis	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Christine Harley	Pennaeth Uned Cyflawni Lleol Dyfed Powys, Y Gwasanaeth Profiannaeth Cenedlaethol
Sharron Lusher	Prifathrawes Coleg Sir Benfro
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau D-O Sir Benfro, Morol ac Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Jonathan Feild	Rheolwr Cyflogwyr a Phartneriaethau, DWP

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau'r rhai a restrwyd uchod.

Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gynrychiolydd CNC yn mynychu ac, fel partner statudol, roedd goblygiadau i hyn o ran a oedd cworwm yn y cyfarfod neu beidio. Gyda chytundeb holl bartneriaid, penderfynodd y Cadeirydd ei bod yn briodol i'r cyfarfod fynd rhagddo am nad oedd unrhyw fusnes ar yr agenda a fyddai'n gofyn gwneud penderfyniad arwyddocaol ynghylch swyddogaethau statudol craidd y BGC, gyda'r cafeat pe bai eitem yn gofyn gwneud penderfyniad sylweddol neu phe bai pwnc yn ddadleuol y byddai'n cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 26^{ain} Medi 2017, yn gofnod cywir.

3. Cofnod Gweithredu

Prosiect Diffibrilwyr – Rhoddodd RQ ddiweddiariad ar gynnydd ers y cyfarfod diwethaf. Erbyn hyn roedd darlun manwl gywir o nifer y diffibrilwyr yn y Sir (175). Roedd Coleg Sir Benfro wedi cyflwyno cynnig am gymorth LEADER i hybu diogelwch mewn cymunedau a fyddai'n golygu hyfforddiant i fagu hyder mewn defnyddio diffibrilwyr a manylion ble maent ar gael. Byddai ef ac AR yn edrych ar weithio gydag elusennau i gefnogi codi arian a phrynu offer am bris gostyngol a byddai hefyd yn edrych ar ddarparwyr hyfforddiant a mannau lle byddai modd cynnal hyfforddiant.

Nododd AB bod SJ wedi cysylltu â Rheolwr Cronfeydd Elusennol BIP Hywel Dda a chadarnhaodd y byddai modd cynnig i'r gronfa am rywfaint o gymorth i'r prosiect. Byddai'n cyfarfod y rheolwr yn ddiweddarach yn yr wythnos i drafod hyn yn fanylach.

Cyfraniadau ariannol at waith y BGC – nododd NE fod gwaith ar hyn yn dal ar y gweill.

Achlysur Tlodi yn Sir Benfro – Dywedodd SPJ na chafodd yr achlysur a ddylai fod wedi digwydd ym mis Hydref ei gynnal oherwydd problem gydag un o'r siaradwyr gwadd ac y byddai'n cael ei ad-drefnu yn y flwyddyn newydd. Byddai partneriaid BGC yn cael hysbysiad o'r dyddiad yn y man.

Galw'r Cynulliad am dystiolaeth – Gofynnodd AB a fyddai BGC Sir Benfro'n cyflwyno ymateb i'r alwad am dystiolaeth ar gyfraniadau BGC at ymladd tlodi. Byddai NE yn cydgysylltu ymateb BGC Sir Benfro.

NE

4. Cynllun Ffyniant

4a Crynodeb Gweithredol: cyngor ysgrifenedig Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Dywedodd NE y lluniwyd y cyngor i gynorthwyo BGC symud ymlaen gyda datblygu Cynlluniau Ffyniant a bod swyddfa CCD wedi nodi nad y bwriad oedd dehongli'r cyngor fel ymarfer mewn cydymffurfiad. Roedd amryw hypergysylltiadau yn y llythyr cynghori

llawn yn rhoi enghreifftiau o arferion da a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer datblygu'r gweithgaredd manwl i gyflawni ffrydiau gwaith y BGC.

Tynnodd aelodau'r BGC sylw at amryw feysydd o'r cyngor. Nododd AB fod pwyslais ar sut ddylai cynlluniau fod yn seiliedig ar le a nododd SL y canolbwynt cryf ar bwysigrwydd profiadau bywyd. Dywedodd amryw o aelodau'r BGC bod diffyg dealltwriaeth o'r gwaith da oedd yn digwydd eisoes yn y sir mewn rhannau o'r llythyr ac y byddai sylwadau mwy penodol i Sir Benfro wedi bod yn ddefnyddiol.

Trafododd aelodau'r BGC fater rhannu data a phosibilrwydd datblygu cytundeb neu brotocol i hyrwyddo hyn rhwng partneriaid. Byddai hwn yn gyfle i ddangos yr ymddiried o fewn y BGC fel casgliad ac fe nodwyd y dylai'r arweiniad hwn fod yn glir ynghylch ei ddiben ac amcanion yn hytrach na dim ond casglu data er ei fwyn ei hun. Cytunodd RQ y byddai'n dod â chynnig prosiect i'r cyfarfod nesaf yn dangos egwyddorion allweddol i bartneriaid y BGC eu derbyn er mwyn symud ymlaen gyda'r gwaith hwn.

RQ

4b Pwyllgor Craffu a Throsolygu Partneriaethau 31-10-2017

Amlinellodd NE drafodaethau o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu a Throsolygu Partneriaethau yn dilyn cyflwyno Cynllun Ffyniant Drafft Sir Benfro iddo a nododd sylwadau'r Pwyllgor i'r BGC fel a ganlyn:

- Bod angen i'r BGC gynorthwyo ein cymunedau trwy wneud pethau'n wahanol
- Y dylid gwneud y gorau o ddefnyddio asedau ac adeiladau cymunedol
- Bod y Pwyllgor yn cefnogi syniadau fel ffeirio swyddi i hybu newid sylfaenol
- Bod angen cynnwys y gweithlu pryd bynnag yr oedd newid sylweddol yn cael ei ystyried
- Bod y Pwyllgor yn cefnogi datblygiad a thwf mentrau cymdeithasol er mwyn y budd economaidd mwyaf
- Y dylai'r BGC wella ei ddulliau ymgysylltu a sicrhau y gall pobl ymuno yn rhannau'r sgwrs y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt

Nododd partneriaid sylwadau'r Pwyllgor gan gytuno y byddai'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'i ymateb i'r ymgynghoriad ac wrth i'r BGC symud ymlaen i'r cyfnod cynllunio gweithgaredd manwl.

4c Trefniadau cyflawni'r Cynllun Ffyniant

Crynhodd NE y papur yn amlinellu'r camau y byddai angen eu cymryd yn ystod y mis neu ddau nesaf i baratoi ar gyfer cyflawni'r Cynllun ac, yn arbennig, sefydlu grwpiau cydgysylltu dan bob ffrwd waith i gwmpasu a chynllunio gwaith. Dywedodd fod dulliau cyflawni'n gofyn cysylltiadau cryf ac uniongyrchol â'r BGC i sicrhau atebolrwydd priodol ac awgrymwyd y byddai aelodau arweiniol penodol o'r BGC yn gyfrifol am arwain y grwpiau cydgysylltu. Nododd TJ fod hon yn broses ofynnol er mwyn symud ymlaen gyda pharatoi'r Cynllun ac nad oedd yn fater sydd angen penderfyniad sylweddol. Felly, nid oedd unrhyw reswm pam na ellid symud y gwaith angenrheidiol hwn yn ei flaen.

Nododd NE y byddai gofyn bod swyddogion cymorth o bartneriaid y BGC yn rhan o'r grŵp cydgysylltu yn ogystal ag aelodau'r BGC a restrwyd yn y cynnig. Felly, byddai gofyn enwau dau neu dri swyddog ychwanegol i greu cronfa ddigonol o gymorth a byddai NE yn cysylltu â darpar staff yn ystod yr wythnos nesaf. Byddai cyfarfod o swyddogion cymorth yn cael ei gynnal cyn y Nadolig i ddechrau cynllunio gwaith y grwpiau

NE

cydgysylltu, yn arbennig i sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth a chysondeb dulliau wrth i bob grŵp ymgymryd â'r gwaith o'i flaen. Byddai grwpiau cydgysylltu'n cyfarfod yn y Flwyddyn Newydd ac yn dechrau cwmpasu'r gweithgaredd manwl a syniadau cyflawni ar gyfer pob ffrwd waith, gyda phob un yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd i gyfarfod nesaf y BGC ym mis Chwefror.

4d Cynlluniau Ffyniant Sir Gâr a Cheredigion

Fel y ceisiwyd yn y cyfarfod diwethaf, nodwyd Cynlluniau Ffyniant Sir Gâr a Cheredigion.

Dyweddodd AB y byddai hefyd yn bwysig ystyried Cynllun Ardal Gorllewin Cymru wrth gynhyrchu Cynllun Ffyniant Sir Benfro, er y nodwyd y byddai hyn yn anodd oherwydd amserlenni gwahanol. Byddai'r ddogfen yn cael ei chylchredeg i'r BGC er gwybodaeth pan fydd ar gael a'i hystyried i'w chyflwyno mewn achlysur Rhanbarthol y BGC yn y dyfodol.

4e Rhwydwaith Cydgynhyrchu Sir Benfro

Cyflwynodd SL y diweddaraf ar waith Rhwydwaith Cydgynhyrchu Sir Benfro. Nododd y bu rhai problemau wrth ddwyn gwaith y grŵp yn ei flaen ers i'r BGC ei drafod ym mis Ebrill oherwydd nad oedd gan staff amser i fynychu cyfarfodydd. Er mwyn cynorthwyo'r BGC i ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau, byddai gofyn y canlynol:

- Roedd angen cydgysylltu gwaith y rhwydwaith ac roedd angen adolygu a diweddarau fframwaith y ddogfen (a gymeradwywyd eisoes gan y BGLI)
- Gweld bod gan swyddogion amser unswydd i weithio ar flaenoriaethau ymgysylltu a chynigion am arian y BGC lle bo angen

Trafododd aelodau'r BGC y cais a wnaed ar ran y rhwydwaith ynghyd â materion adnoddau a swyddogaeth Cynghorau Tref a Chymuned wrth gael barn dinasyddion. Nododd JM y gallai PLANED gynorthwyo efallai gydag aelod o'r staff i dynnu'r grŵp ynghyd yn dibynnu ar gymorth grant.

5 **Aelodaeth y BGC: Cynghorau Tref a Chymuned**

Cyflwynodd SL bapur yn cynnig ymestyn aelodaeth y BGC i gynnwys cynrychiolaeth cynghorau tref a chymuned.

Trafodwyd aelodaeth y BGC yn fyr a nododd SPJ y byddai Grŵp Cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned yn cyfarfod nesaf ar 4^{ydd} Rhagfyr. Nododd TJ bod cytundeb cyffredinol yn y BGC i adolygu aelodaeth ar ôl cyhoeddi'r Cynllun i ystyried y blaenoriaethau yn y Cynllun a'i ofynion cyflawni, a chyfleoedd i gynnwys partneriaid eraill. Nodwyd hefyd y byddai angen i gynghorau tref a chymuned benderfynu pwy fyddai'n eu cynrychioli ar y BGC a pha drefniant fyddai ar gyfer cynrychioli sylwadau holl gynghorau tref a chymuned. Cytunai'r partneriaid y byddai'n ddefnyddiol ymgysylltu â'r sector trwy grŵp cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned a gofyn am ei farn ynghylch sut fyddai'n rhoi sylw i'r mater hwn. Awgrymwyd y dylid gohirio adolygu aelodaeth y BGC, yn ogystal ag adolygu'r cylch gorchwyl (i atgyfnerthu'r manylion ynghylch sut ddylai aelodau gyfranogi yng ngwaith y BGC), tan ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Ffyniant.

**NE ar
gyfer yr
agenda
(ar ôl
Mai 18)**

**NE i
gadw
cyswllt
â grŵp
TCC**

6 **Diweddariad Adolygiad Rhoi Cymunedau'n Gyntaf**

Dyweddodd NE bod hwn yn adroddiad diweddarau'n cyflwyno'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn cysylltiad ag adolygu Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a defnyddio'r gronfa etifeddiaeth. Gofynnodd IW i aelodau'r BGC ystyried cynnwys yr adroddiad a gylchredwyd ac anfon unrhyw sylwadau at NE i'w cynnwys yn yr adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Cabinet yn y Flwyddyn Newydd fel y bo'n briodol.

PAWB

7 Cynllun Datblygu Lleol CSP – Adolygiad y Cynllun

Rhoddodd SM olwg dros broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Y ddwy ddogfen a fyddai'n ffurfio rhan o'r ymgynghori yw'r cytundeb cyflawni, yn manylu ar amserlen pwy fyddai dan sylw, ac adroddiad yr adolygiad a fyddai'n rhestru'r meysydd i ganolbwyntio arnynt fel rhan o'r adolygiad. Gofynnodd SM am ymgysylltiad a chyfranogiad y BGC yn y dyfodol a nododd y byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu.

8 Gweithdy rhanddeiliaid Strategaeth Etifeddiaeth Ddiwylliannol Sir Benfro

Dyweddodd SPJ fod y papur a gylchredwyd i aelodau'r BGC yn rhoi manylion gweithdy i'w gynnal ar ddydd Llun 4^{ydd} Rhagfyr a fyddai'n ceisio gweld a oedd cyfleoedd i wahanol asiantaethau rhanbarthol a chenedlaethol gyfrannu at ddwyn strategaeth etifeddiaeth ddiwylliannol yn ei blaen ledled Sir Benfro. Gofynnwyd i aelodau'r BGC gyda chyfraniad i'w wneud at y cylch gwaith hwn anfon manylion cynrychiolydd i fynychu'r gweithdy at NE.

**Aelodau
perthnas
ol y BGC**

9 UFA

Nid oedd unrhyw fater arall.

Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng Ngorsaf Dân Hwlfordd ac y byddai manylion y lleoliad a chyfarwyddiadau parcio'n cael eu cylchredeg cyn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.